**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Hydref 2007**

## DIWEDDARIAD GAN WEITHGOR YR HYRWYDDWYR

**Adroddiad ar y Cyd gan y Cynghorydd Ted George, Hyrwyddwr Cefnogi a Datblygu Aelodau a Rhian Evans, Swyddog Cyswllt Aelodau**

### Diben yr Adroddiad

**1.** I hysbysu aelodau am waith Gweithgor yr Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol a Chefnogi a Datblygu Aelodau ers cyfarfod diwethaf o'r Awdurdod ar 18fed Mehefin 2007.

### Cefndir

**2.** Sefydlwyd y Gweithgor Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol a Chefnogi a Datblygu Aelodau gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mawrth 2007 i'r diben o sefydlu perthynas waith cryfach rhwng awdurdodau lleol a'r Awdurdod Tân ac Achub ym maes diogelwch cymunedol, a chyda golwg o hyrwyddo a gwella cefnogi a datblygu aelodau.

**3.** Er mwyn paratoi ar gyfer ei gais am gydnabyddiaeth o dan Freinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau, fe fabwysiadodd yr Awdurdod Tân ac Achub, yn ei gyfarfod ar 18fed Mehefin 2007, set o Ddisgrifiadau Swyddi a Manylebau Person ar gyfer aelod o'r Awdurdod, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Pwyllgor a Chadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod.

**Gwybodaeth**

**4.** Er fod y Gweithgor yn ymdrechu i gwrdd pob 6 wythnos, yn anffodus, dim ond unwaith mae wedi cwrdd ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod ar 18fed Mehefin. Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, roedd rhaid gohirio'r cyfarfod oedd i'w gynnal ar 7fed Medi. Mae cyfarfod nesaf y Gweithgor wedi ei drefnu ar gyfer 6ed Tachwedd 2007.

**5.** Yn ei gyfarfod ar 6ed Gorffennaf 2007, fe dderbyniodd y Grŵp nifer o gyflwyniadau, briffiau a thrafodwyd pynciau perthnasol eraill, yn ychwanegol i'r eitemau busnes arferol ar Freinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau ac 'Effaith yr Ymgyrch Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref' o bersbectif ardal sirol benodol.

**6.** Yn dilyn cyflwyniad ar 'Ariannu Allanol' gan arbenigwyr o Heddlu Gogledd Cymru sy'n arbenigo mewn chwilio am gefnogaeth ariannol i brosiectau a mentrau, penderfynodd y Grŵp y byddai'n fuddiol i holl Reolwyr Diogelwch y Sir sefydlu cyfarfodydd gyda phersonél yr Heddlu gyda golwg o ymchwilio arian ar gyfer gwaith diogelwch cymunedol a dichonoldeb cydweithio gyda sefydliadau eraill i gyflwyno ceisiadau ar y cyd i ariannu prosiectau neu fentrau penodol.

**7.** Cynghorwyd aelodau y Grŵp am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Diogelwch Tân Domestig (LCO) Mrs Ann Jones AC. Cawsant friff o'i gynnwys, y weithdrefn LCO a chyfranogiad y Gwasanaeth fel y prif Wasanaeth sy'n cynghori Mrs Jones ar y mater o daenellwyr domestig.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**8.** Rhoddwyd gwybod i aelodau o'r Gweithgor, oherwydd y lefelau uchel o geisiadau am Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref am ddim, oedd i'w groesawu, fod yr Awdurdod yn wynebu dilema adnoddau wrth iddo geisio bodloni 'poblogrwydd' y fenter. Roedd cyfyngiadau cyllidebol ar gyfer 2008/09 hefyd yn golygu byddai'r Awdurdod yn parhau i gael trafferth cadw i fyny gyda'r gofyn uchel am y gwasanaeth ymyrryd hanfodol hwn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Gyda golwg o liniaru'r pwysau cyllidebol yma, gofynnodd y Grŵp i waith ymchwil gael ei gynnal i'r goblygiadau ariannol o sefydlu a chynnal gwasanaeth, tebyg i 'Fire Service Direct'; ynghyd ag argaeledd ffynonellau ariannu neu noddi ar ei gyfer.

**9.** Mae trosglwyddo negeseuon diogelwch tân i gymunedau ethnig a lleiafrifol o fewn Gogledd Cymru, sydd wedi profi i fod yn anodd ar adegau, yn faes lle mae'r Gwasanaeth wedi ei glustnodi i dderbyn sylw. Rhoddwyd cyflwyniad i aelodau o'r Grŵp gan Reolwr Diogelwch y Sir a gweithwraig sydd wedi ymfudo, ac sy'n gweithio fel gwirfoddolwr yn Swyddfa Ddiogelwch y Sir, Wrecsam, ar sut oedd y Gwasanaeth wedi gallu cysylltu gyda'r cymunedau hynny sy'n anodd eu cyrraedd yn yr ardal honno. Eglurodd y weithwraig wirfoddol sut roedd hi wedi ennill profiad gwaith gwerthfawr ar dechnoleg gwybodaeth, gweinyddiaeth a gwaith swyddfa gyda'r Gwasanaeth, a sut thrwy hynny roedd hi wedyn trwy ei chysylltiadau â'r Cyngor Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid yn Wrecsam, wedi cynorthwyo'r Gwasanaeth i wneud cysylltiad gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid i'r diben o gyfathrebu negeseuon diogelwch tân iddynt hwy a'u teuluoedd ac i gael mynediad i'w cartrefi er mwyn perfformio Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref am ddim. Roedd yr enghraifft yma o gyd weithio wedi ennill cydnabyddiaeth cenedlaethol yn ddiweddar pan wahoddwyd Rheolwr Diogelwch y Sir a'r weithwraig wirfoddol i siarad yn y Gynhadledd Gwirfoddoli a Lloches yng Nghaerdydd.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**10.** Amlygwyd enghraifft o arfer da gan aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub i'r Grŵp, oedd, trwy arddangos y rhif rhadffôn ar ei flog personol yn annog y cyhoedd i gofrestru am archwiliad diogelwch tân yn y cartref am ddim. Yn ychwanegol, roedd blog yr aelod hwn hefyd yn cynnwys ffotograffau ac erthygl ar ddigwyddiad lle'r oedd personél y Gwasanaeth wedi bod yn bresennol yn rhannu negeseuon diogelwch tân. Anogwyd pob aelod i ddefnyddio pa bynnag ddulliau oedd ar gael iddynt ar gyfer hyrwyddo a chyfathrebu negeseuon diogelwch.

**11.** Mae swyddogion ac aelodau o'r farn, oherwydd fformat llai strwythuredig ei gyfarfodydd, fod y Gweithgor, ers ei sefydlu, wedi gwneud camau mawr ymlaen i wella perthynas waith aelodau/swyddogion. O ganlyniad i'r momentwm oedd wedi cael ei ennill, roedd aelodau'r Grŵp yn teimlo eu bod nhw'n cyfrannu tuag at lunio cyfeiriad y gwasanaeth tân ac achub yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru gyda'r nod o wneud Gogledd Cymru yn lle diogelach i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

**Argymhelliad**

**12.** I nodi'r wybodaeth ddarparwyd.